Rheoli ansawdd dŵr a diogelwch mewn pyllau sba a phyllau nofio

Pecyn Cymorth i reoli ansawdd dŵr a rheoli peryglon i ddiogelwch mewn pyllau sba a phyllau nofio.

Cynnwys:

Pennod 1 Datganiad o ddiben – nodau ac amcanion y Cynllun

Pennod 2 Pethau i'w hystyried cyn rhoi'r Cynllun ar waith

Pennod 3 Rhoi'r cynllun Rheoli Ansawdd Dŵr ar waith

Atodiad 1(a) Llythyr apwyntiad ar gyfer safleoedd a orfodir gan ALl

Atodiad 1(b) Llythyr apwyntiad ar gyfer safleoedd a orfodir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Atodiad 2 Holiadur hunanarchwilio safle

Atodiad 3 Rhestr o gyhoeddiadau arweiniad

Atodiad 4 Holiadur 'Prawf Gwybodaeth' ar gyfer staff gweithredol pyllau sba

Atodiad 5 Ffurflen arolygu swyddog

Pennod 1

Rheoli Ansawdd Dŵr a Diogelwch mewn pyllau sba a phyllau nofio

Cyflwyniad – Nodau ac Amcanion y Cynllun

Her Iechyd Cymru

1. Dewiswyd themâu allweddol Her Iechyd Cymru oherwydd credir bod y materion hyn yn gyfran sylweddol o'r salwch y gellid ei osgoi yng Nghymru. Mae atal heintiau rhag lledu a chwtogi ar ddamweiniau ac anafiadau yn ddwy thema allweddol. Mae'r ymyriad hwn yn ymdrech i atal amrywiaeth o heintiau drwy ddefnyddio pyllau sba a phyllau nofio, a'r risg y mae bacteria Clefyd y Llengfilwyr yn ei achosi, sef y cyfrwng sy'n achosi Clefyd y Llengfilwyr sy'n cael ei gysylltu â phyllau sba yn benodol. Mae'r ymyriad yn mynd i'r afael hefyd â phroblemau damweiniau ac anafiadau yn sgil llithro a baglu, trafod cemegau trin dŵr â llaw a diffyg diogelwch wrth drin cemegau. Aiff i'r afael yn uniongyrchol felly ag uchelgeisiau Her Iechyd Cymru.

2. Caiff bacteria Clefyd y Llengfilwyr eu lledaenu'n helaeth yn yr amgylchedd. Fe'u canfuwyd mewn pyllau sba, systemau dŵr poeth ac oer, a dŵr mewn tyrrau oeri. Mae'n bosib y gall pyllau sba achosi heintiau gan fod y systemau dŵr yn cael eu llygru gan facteria ac mae tymereddau uchel y dŵr yn rhoi pwysau sylweddol ar y systemau diheintio a hidlo gan ei gwneud yn hawdd i'r bacteria ddatblygu a lledaenu oni chaiff y systemau eu cynnal a'u cadw'n ddigon da. Wedyn mae'r ffrydiau o byllau sba yn cynhyrchu chwistrelli sy'n cynnwys bacteria clefyd y llengfilwyr y gellir eu hanadl ac sy'n gallu achosi salwch. Yn ystod 2003, cafwyd 27 achos o glefyd y Llengfilwyr yn Lloegr lle nodwyd mai pyllau sba oedd tarddiad yr haint, ac arweiniodd 3 o'r achosion hyn at farwolaeth. Yn 2003-4 cynhaliodd yr Asiantaeth Diogelu Iechyd astudiaeth flwyddyn mewn cydweithrediad â swyddogion iechyd yr amgylchedd awdurdodau lleol a arolygodd fwy na 100 o byllau sba. Allan o 88 safle, canfuwyd bod 23 o byllau sba yn cynnwys bacteria clefyd y llengfilwyr. Roedd un ar bymtheg o'r rhain wedi pasio lefelau a dderbynnir ar hyn o bryd ar gyfer paramedrau microbiolegol arferol.

3. Ceir hefyd heintiau microbiolegol eraill y gellir eu trosglwyddo drwy byllau sba a phyllau nofio, gan gynnwys Pseudomonas aeruginosa, Cryptosporidium spp. a Giardia Lamblia. Lluniwyd arweiniad am reoli risg heintiau o byllau sba[1], ond mae tystiolaeth yn awgrymu mai oherwydd diffyg gwybodaeth a staff amhrofiadol y mae samplau dŵr yn methu profion.

4. Aiff y cynllun hwn i'r afael hefyd â themâu *Adfywio Iechyd a Diogelwch,* sef llithro a baglu, trafod cemegau trin dŵr â llaw a diogelwch cemegau. Nid oes unrhyw ffigurau cenedlaethol wedi'u casglu ar gyfer damweiniau ac anafiadau sy'n digwydd, p'un ai i nofwyr a defnyddwyr pyllau neu staff mewn pyllau nofio neu byllau sba. Os yw'r digwyddiad yn achosi damwain hysbysadwy, mae'r awdurdod lleol perthnasol yn cael gwybod am y ddamwain neu'r anaf ac yn cynnal ymchwiliad. Os nad yw'r ddamwain neu'r anaf yn ddamwain hysbysadwy, fe allai gael ei chofnodi yn y llyfr

[1] Management of Spa Pools - Controlling the Risks of Infection. London: Health Protection Agency, Health and Safety Executive; March 2006. (http://www.hpa.org.uk/publications/2006/spa_pools/default.htm)

damweiniau a gedwir yn y safle. Mae'n bosib y bydd y swyddog awdurdod lleol sy'n arolygu'r safle yn edrych ar y llyfr damweiniau hwn.

5. Gan nad oes unrhyw ffigurau cenedlaethol am ddamweiniau ac anafiadau i ddefnyddwyr pyllau nofio a phyllau sba, mae'n amhosib cyfrif cost y rhain. Mae'r GIG yn mynd i gostau drwy ddarparu triniaeth, os oes angen. Gall y costau hyn fod yn sylweddol os oes achosion o anafiadau pen, ac mae'r costau personol i'r unigolyn a effeithiwyd a'i deulu yn ddrud ac yn hirhoedlog. Ceir costau pellach drwy golli cynhyrchiant os yw'r anaf yn golygu absenoldebau o'r gwaith.

6. Dengys ffigurau a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch bod mwy na 30% o anafiadau yn mynnu bod cyflogai yn cymryd 3 diwrnod neu fwy o'r gwaith ac achosir mwy na 10% o anafiadau difrifol gan godi a chario. Yn y diwydiant hamdden, achosir 41% o ddamweiniau hysbysadwy drwy godi a chario gwael[2]. Nid yw'n bosibl cyfrif cost yr anafiadau hyn o ran costau triniaeth y GIG neu golli costau cynhyrchiant, ond cydnabyddir mai anafiadau codi a chario yw un o'r meysydd sy'n peri'r gofid mwyaf a bod awdurdodau lleol a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wrthi'n ceisio lleihau nifer yr anafiadau hyn.

7. Mae'r ymyriad hwn yn ceisio mynd i'r afael â phroblem ansawdd dŵr, a phroblem clefyd y llengfilwyr yn benodol, yn ogystal â phroblemau defnyddwyr pyllau a chyflogeion yn llithro a baglu ac anafiadau a gaiff staff drwy dechnegau codi a chario gwael. Drwy wneud hynny, mae'n mynd i'r afael â dwy o themâu allweddol Her Iechyd Cymru.

[2] Booklet HS(G)96 - The costs of accidents at work (yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch).ISBN 0 7176 1343 7.

Pennod 2

Rheoli ansawdd dŵr a diogelwch mewn pyllau sba a phyllau nofio

Rhoi'r Cynllun ar Waith

1. Ystyriaethau cychwynnol

Mae'n rhaid mynd i'r afael ag ystyriaethau cychwynnol ar gyfer y prosiect hwn, gan gynnwys:

- Pwy yw'r grŵp targed?
- A gyflawnir y canlyniad dymunol?
- Sut y gellir cyrraedd y grŵp targed?
- Pwy yw'r partneriaid allweddol yn y cynllun?
- Sut y caiff y cynllun ei werthuso?
- A fydd y cynllun yn cynnig gwerth am arian?

2. Grŵp Targed

Safleoedd yn hytrach na phobl yw'r grŵp targed ar gyfer y cynllun hwn. Mae unrhyw safle â phwll nofio neu bwll sba sydd ar agor i'r cyhoedd a/neu gyflogeion yn rhan o'r grŵp targed. Gall y rhain fod yn westai, clybiau hamdden, canolfannau hamdden awdurdodau lleol ac ysbytai. Gan fod awdurdodau lleol a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn gallu rhoi'r cynllun ar waith, nid yw'n berthnasol a fydd y safleoedd yn cael eu harolygu at ddibenion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 gan yr awdurdod lleol neu'r yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

3. Cyflawni'r canlyniad dymunol

Diben y cynllun hwn yw codi safonau ansawdd dŵr mewn pyllau nofio a phyllau sba ac felly lleihau risg heintiau a gludir mewn dŵr, yn benodol clefyd y llengfilwyr, a hefyd cwtogi ar ddamweiniau yn yr un meysydd gan amddiffyn pobl yn benodol rhag llithro a baglu a rhag damweiniau yn sgil technegau gwael o drafod cemegau trin dŵr â llaw.

Mae'n ceisio mynd i'r afael ag achosion gwaelodol ansawdd dŵr gwael mewn pyllau nofio a phyllau sba drwy hybu ymwybyddiaeth staff am yr angen i fonitro ansawdd dŵr a thrin dŵr yn briodol. Mae hefyd yn hybu ymwybyddiaeth am y risgiau y mae clefyd y llengfilwyr yn eu hachosi sy'n mynnu trefn triniaeth wahanol a mwy o ymwybyddiaeth a allai fod y tu hwnt i brofiad aelodau o staff. Mae'n hyrwyddo asesu risgiau o ran rheoli heintiau a gludir mewn dŵr, a dylai hyn hybu ymwybyddiaeth a hyrwyddo gwyliadwriaeth.

Mae'r cynllun yn ceisio hybu ymwybyddiaeth hefyd am y risgiau corfforol i ddefnyddwyr pyllau a staff oherwydd llithro a baglu a risgiau i staff drwy drafod cemegau trin pyllau â llaw. Drwy wneud hynny, dylai gwtogi ar ddamweiniau y gellir eu priodoli i'r problemau hyn. Mewn rhai achosion, mân ddamweiniau yw'r rhain nad ydynt yn cael eu hadrodd, ac felly ni fydd modd mesur effaith y cynllun yn hyn o beth; fodd bynnag, os yw'r ddamwain yn achosi anaf difrifol neu sylweddol gellir

adrodd amdani. Byddai gostyngiad yn lefelau damweiniau felly a adroddir i'r awdurdodau lleol a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn adlewyrchu effeithiolrwydd eithaf y rhan hon o'r cynllun.

4. Cyrraedd y Grŵp Targed

Cyrhaeddir y grŵp targed, sef safleoedd, yn ystod y rhaglen gynlluniedig o arolygiadau ac ymweliadau a gynhelir gan swyddogion gorfodi o'r awdurdodau lleol a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974.

5. Pwy yw'r partneriaid allweddol yn y cynllun?

Y partneriaid allweddol i'r cynllun hwn yw tîm Iechyd a Diogelwch yr awdurdod lleol a'r arolygwyr yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sy'n ymdrin â'r un ardal ddaearyddol. Yn y prosiect peilot, roedd Labordy Bwyd, Dŵr a'r Amgylchedd y GICC yn Ysbyty Llandochau yn bartneriaid hefyd, oherwydd dyma lle profwyd samplau dŵr.

6. Sut y caiff y cynllun ei werthuso?

Fel y nodwyd ym mharagraff 3 uchod, nod y cynllun hwn yw atal heintiau rhag lledu ymhlith defnyddwyr pyllau nofio a phyllau sba, ond cydnabyddir ei bod yn anodd dros ben mesur y canlyniad hwn. Er ei bod yn bosibl cymharu ffigurau ar gyfer y rheiny sy'n mynd at eu meddygon teulu gyda heintiau a gludir mewn dŵr cyn yr ymyriad ac ar ôl yr ymyriad, nid yw'n bosibl priodoli unrhyw ostyngiad yn y niferoedd i'r cynllun yn hawdd, gan fod cynifer o ffactorau eraill yn gallu cyfrannu.

Mae problemau tebyg yn bosibl wrth nodi gostyngiadau yn nifer y damweiniau oherwydd llithro a baglu, diogelwch cemegau a chodi a chario. Mae'n bosibl ystyried nifer y damweiniau a ddigwyddodd yn y safleoedd mewn cysylltiad â'r pwll neu ei amgylchedd agos cyn yr ymyriad ac ar ôl yr ymyriad. Gellir cymryd y ffigurau hyn o hysbysiadau RIDDOR i'r awdurdod lleol a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a chofnodion yn y llyfr damweiniau mewn cysylltiad â damweiniau nad ydynt yn hysbysadwy. Byddai gostyngiad yn nifer y damweiniau hysbysadwy a damweiniau eraill yn awgrymu bod yr ymyriad wedi cael effaith gadarnhaol. Mae anafiadau difrifol neu hyd yn oed farwolaeth yn bosibl oherwydd un weithred neu esgeulustod ar ran gweithredwr y pwll a dyma'r digwyddiadau y mae'r ymyriad yn ceisio mynd i'r afael â hwy, yn ogystal â mân ddamweiniau nad ydynt yn cael effaith mor wanhaol.

Fodd bynnag, mae'n bosibl yr adroddir am nifer isel o ddamweiniau cyn yr ymyriad ac ar ôl yr ymyriad. Er nad yw hyn yn bychanu gwerth yr ymyriad, mae'n golygu efallai nad yw'n ddigonol defnyddio damweiniau a adroddir yn unig fesur gwerthuso.

Gan nad yw'r mesurau canlyniad hyn yn arf gwerthuso ymarferol a digonol ar eu pennau eu hunain, un ffordd fwy effeithiol o werthuso'r cynllun yw ystyried pa newidiadau, os o gwbl, sy'n cael eu gwneud i'r ffordd y mae'r gweithredwyr pwll preifat yn cynnal eu busnes o ganlyniad i'r cynllun. Gellir asesu newidiadau ymddygiad drwy gymharu canfyddiadau o'r ymweliad cyntaf â'r safle gyda chanfyddiadau yn yr ail ymweliad (os rhoddir hysbysiadau gorfodi) a'r ymweliad olaf

ar ddiwedd y rhaglen. Gallai newidiadau mewn gweithdrefnau fod yn nodiadau, neu newidiadau i Asesiadau Risg neu Gynlluniau Gweithredol er mwyn lleihau risg damweiniau neu ddigwyddiadau ansawdd dŵr. Byddai'r rhain yn awgrymu bod yr ymyriad wedi cael effaith gadarnhaol.

Mae'n benodol bwysig bod y newidiadau hyn mewn ymddygiad ac arfer yn digwydd mewn amgylchiadau lle nad yw'r risgiau o weithredu sba/pwll yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn y prosiect yn galluogi swyddogion gorfodi i nodi'n gyflym y safleoedd lle nad yw eu risgiau'n cael eu rheoli'n ddigonol efallai, ac i gymryd camau cywiro a/neu orfodi priodol er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn. Drwy ganolbwyntio ar y safleoedd lle mae'r problemau mwyaf difrifol, mae'r prosiect yn targedu adnoddau gorfodi prin yn effeithiol er mwyn gwella safonau ac amddiffyn y cyhoedd.

Mae'r ddogfennaeth a ddefnyddir yn y prosiect wedi cael ei rhagbrofi a'i gwerthuso'n gadarnhaol yn flaenorol mewn ymyriad gan Gyngor Dinas Westminster, felly ni chredir bod angen gwerthuso'r dulliau casglu data hyn ymhellach.

Drwy ddefnyddio dogfennaeth y prosiect yn gyson, gellir cymharu a chyfuno canlyniadau ar draws y safleoedd amrywiol sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth. Yna gellir defnyddio'r canlyniadau cyfun i nodi meysydd sy'n achosi pryder cyffredin ar draws y maes, neu mewn sectorau penodol.

Hefyd, gellir cymharu canlyniadau o 'brawf gwybodaeth' gweithredwr y pwll sba â'r canfyddiadau eraill mewn perthynas â'r safle, er mwyn nodi a oes cysylltiad rhwng gwybodaeth staff a chanlyniadau eraill, fel samplau ansawdd dŵr neu asesiadau risg.

7. A fydd y cynllun yn rhoi gwerth am arian?

Y costau sydd ynghlwm wrth gynnal y prosiect hwn yn bennaf yw costau 'cychwyn' mewn cysylltiad â monitro/samplu offer a hyfforddi staff.

- Cwrs hyfforddi dwys undydd ar gyfer 7 aelod o staff gorfodi am weithredu a chynnal a chadw systemau trin dŵr pyllau sba a phyllau nofio. Darparwyd yr hyfforddiant gan wasanaeth ymgynghori allanol, am gost o £600 a TAW.
- Prynwyd offer monitro a samplu: yn benodol cymharydd lovibond digidol (ffotomedr), mesurydd cyfanswm y solidau toddedig a mesurydd tymheredd. Cyfanswm cost offer £568.00.

Mae costau gweithredu ar gyfer y cynllun yn hynod gost-effeithiol. Mae'r arolygiadau yn rhan o'r ymagwedd seiliedig ar bwnc at orfodi iechyd a diogelwch, gyda ffocws ar broblem hysbys ac ymagwedd strwythuredig. Mae'r tîm gorfodi iechyd a diogelwch yn cynnal yr arolygiadau yn rhan o'i swyddogaeth arferol, a'r unig adnoddau ychwanegol sydd eu hangen yw'r rhai sy'n gysylltiedig â thalu am ddadansoddiad microbiolegol o samplau dŵr. Costiwyd y rhain yn £2.14 yr un ar gyfer dadansoddiad microbiolegol cyffredinol (ar gyfer dŵr pyllau nofio a phyllau sba) a chostiwyd samplau ar wahân yn £8.30 ar gyfer dadansoddi dŵr pyllau sba ar gyfer Clefyd y Llengfilwyr. Roedd angen talu gan fod y samplau hyn y tu allan i'r cytundeb lefel gwasanaeth presennol â'r labordy.

Mae’r cynllun yn cynnig gwerth da iawn am arian felly, gan y bydd y costau offer a hyfforddiant yn ystod y cyfnod ‘cychwyn’ ar gael o hyd i’r awdurdod lleol ar ôl cwblhau’r prosiect, ac mae costau gweithredol yn isel iawn.

Pennod 3

Rheoli ansawdd dŵr a diogelwch mewn pyllau sba a phyllau nofio

Rhoi ymgyrch ar waith i reoli ansawdd dŵr pyllau

Yr ymgyrch

Nod yr ymgyrch yw hybu ymwybyddiaeth ynghylch risgiau lledaenu heintiau a gludir mewn dŵr, gan gynnwys Clefyd y Llengfilwyr, drwy byllau nofio a phyllau sba a chwtogi ar nifer y damweiniau trwy lithro, baglu a chwympo a chodi a chario yn yr un meysydd.

Camau rhagarweiniol

Mae'r cynllun hwn yn rhan o'r drefn arolygu arferol ar sail pwnc. Os nodir achosion o dorri Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 neu ddeddfwriaeth berthnasol gysylltiedig, dylai'r swyddogion gorfodi ymdrin â'r rhain yn y modd priodol. Ni fwriedir i'r ymyriad hwn ymyrryd na gwrthdaro â'r drefn statudol mewn unrhyw ffordd.

Y cam cyntaf yn y cynllun hwn yw nodi'r safleoedd hynny â phyllau nofio neu byllau sba at ddefnydd y cyhoedd a/neu staff. Dylai'r awdurdod lleol a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fod yn ymwybodol o'r safleoedd hyn o'r gronfa ddata o safleoedd sydd ganddynt eisoes. Dylai swyddogion gorfodi adolygu hefyd hanesion cwynion blaenorol, adroddiadau damweiniau RIDDOR a chanlyniadau unrhyw samplu dŵr pwll rheolaidd i amlygu unrhyw feysydd penodol sy'n peri gofid. Dylid defnyddio'r un cyfnod i nodi damweiniau sydd wedi digwydd mewn pyllau preifat neu o'u hamgylch ac a gofnodwyd yn Llyfr Damweiniau yr holl safleoedd a dargedir i roi darlun clir o lefel y risg y mae'r ymyriad yn mynd i'r afael ag ef.

Dylai swyddogion gorfodi'r awdurdod lleol a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch gytuno am ba gyfnod y mae'r ymyriad am barhau, a'r dyddiad cychwyn. Yn y prosiect peilot, parhaodd yr ymyriad am ryw 6 mis yn rhan o'r drefn arolygu ar sail pwnc. Cytunwyd y byddai swyddogion gorfodi awdurdodau lleol hefyd yn cyflwyno'r ymyriad mewn safleoedd a orfodir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, gan gyfeirio unrhyw faterion gorfodi at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar gyfer camau pellach.

Yna gellir llunio cynllun prosiect sy'n nodi'r holl safleoedd yn y grŵp targed, trosglwyddo pob safle i swyddog gorfodi penodol, a gosod dyddiadau targed dros dro ar gyfer arolygu safleoedd.

Cafwyd templedi ar gyfer y llythyrau apwyntiad, yr holiadur hunanarchwilio, y ffurflenni arolygu a holiadur y gweithredwyr pyllau sba oddi ar wefan hyfforddiant HELA http://www.trainingco-ord.org/.

Rhoi'r cynllun ar waith.

Byddai staff gorfodi yn cysylltu â rheolwr y safle i drefnu apwyntiad am arolygiad yn yr ychydig wythnosau nesaf. Ar ôl cysylltu (dros y ffôn fel arfer), anfonir llythyr apwyntiad (Atodiad 1(a) neu Atodiad 1 (b) gan ddibynnu ar yr awdurdod gorfodi) a holiadur

hunanarchwilio (Atodiad 2) at reolwr y safle, ynghyd â rhestr o gyhoeddiadau arweiniad perthnasol (Atodiad 3).

Diben yr holiadur hunanarchwilio yw helpu'r busnes i nodi'r meysydd allweddol y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn cyflawni safonau rheoli da. Drwy annog i'r busnes lenwi'r holiadur hwn ymlaen llaw, cwtogir yn sylweddol ar yr amser gwirioneddol sydd ei angen i gynnal yr arolygiad, ac mae'n rhoi cyfle i'r busnes gymryd camau cywiro os daw meysydd sy'n peri gofid i'r amlwg. Fel hyn, gellir rhoi mesurau lleihau risgiau ar waith yn gynharach nag y byddai'n digwydd, er enghraifft, pe bai ymweliadau arolygu dirybudd yn cael eu cynnal.

Yn ystod yr arolygiad ei hun, trafodir sawl mater.

- Archwilio a thrafod yr holiadur hunanarchwilio a lenwyd gyda rheolwr y pwll, gan nodi unrhyw broblemau a chamau cywiro dilynol
- Archwilio cofnodion gweithredol y pwll sba i wirio atebion a roddwyd i'r holiadur hunanarchwilio
- Archwilio asesiadau risg, gweithdrefnau gweithredu, cofnodion hyfforddiant a dogfennaeth berthnasol arall sy'n gysylltiedig â gweithrediadau'r pwll
- Arolygu ardal y pwll, ystafell y peiriannau, ac ardaloedd perthnasol eraill, gan roi sylw penodol i gynllun, mynediad, codi a chario a diogelwch cemegau
- Cynnal dadansoddiad cemegol o'r dŵr yn y sba, a/neu'r pwll nofio i sicrhau bod ansawdd y dŵr y tu mewn i'r paramedrau gweithredu a dderbynnir
- Cymryd samplau dŵr o'r pwll sba a/neu bwll nofio ar gyfer dadansoddiad bacteriolegol cyffredinol, gan gynnwys Pseudomonas aeruginosa.

Mewn pyllau sba yn unig, cynhaliwyd y gweithgareddau ychwanegol canlynol hefyd:

- Defnyddio holiadur dewis lluosog (Atodiad 4) gyda'r aelod o staff sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r system trin dŵr o ddydd i ddydd er mwyn asesu ei wybodaeth am weithredu pyllau sba yn ddiogel
- Cymryd sampl dŵr o'r pwll sba neu'r pyllau sba er mwyn ei ddadansoddi ar gyfer bacteria Clefyd y Llengfilwyr.

Defnyddir ffurflen arolygu safonol (Atodiad 5) gan swyddogion gorfodi i sicrhau ymagwedd gyson. Yn dilyn yr arolygiad, cymerir y samplau dŵr i'r labordy ymhen 6 awr. Mae angen cysylltu â'r labordy cyn yr ymgynghoriad i sicrhau bod digon o gyfryngau agar priodol ar gael gan y labordy ar gyfer dadansoddiad Clefyd y Llengfilwyr.

Rhoir gwybod i'r busnes dan sylw beth yw canlyniadau'r dadansoddiad microbiolegol maes o law. Os nad oes unrhyw broblemau yn cael eu nodi (naill ai o ganlyniad i'r arolygiad neu'r canlyniadau samplu) ni chymerir unrhyw gamau pellach ynghylch y safle. Fodd bynnag, os nodwyd problemau ac os oes angen camau cywiro, efallai bydd angen ymchwiliad a gweithgarwch gorfodi pellach. Ystyrir hyn fesul achos, yn gymesur â difrifoldeb y problemau a nodwyd. Os yw'n briodol, gall fod angen cymryd samplau dŵr pellach ar gyfer dadansoddiad cemegol a/neu ficrobiolegol.

Gweithgarwch pellach

Gellir ailadrodd y cynllun hwn ar ôl cyfnod cytunedig i sicrhau bod lefelau ymwybyddiaeth yn uchel o hyd. Gellir mesur ei lwyddiant i raddau drwy weld faint o wybodaeth a gadwyd

gan staff sy'n gweithio yn y safleoedd targed, er na fydd hyn mor llwyddiannus os oes staff wedi gadael a staff newydd wedi cyrraedd.

Awgrymir hefyd y gellir cyfuno'r cynllun hwn â Chynllun Diogelwch Pyllau Preifat a hyrwyddwyd gan Gyngor Bro Morgannwg ac sydd i'w weld yng Nghyfrol 1 Pecyn Cymorth Cyfraniadau Iechyd yr Amgylchedd at Her Iechyd Cymru – ewch i http://www.cieh.org/library/Knowledge/Food_safety_and_nutrition/Diet_and_nutrition/08%20Diogelwch%20mewn%20Pyllau%20Nofio%20Preifat.pdf ar gyfer y fersiwn Gymraeg neu http://www.cieh.org/library/Knowledge/Food_safety_and_nutrition/Diet_and_nutrition/08%20Private%20Pool%20Safety%20(%20English).pdf ar gyfer y fersiwn Saesneg.

Atodiad 1(a)

Our Ref / Ein Cyf: KD/PP/
Your Ref / Eich Cyf:

Date / Dyddiad: X Ionawr 2006

Annwyl Syr/Fadam

Parthed: Gweithredu Pyllau Sba yng Nghaerdydd – Rheoli pyllau sba
Prosiect arolygu a phrofi Ionawr – Ebrill 2006

Yn dilyn ein sgwrs ddiweddar ar y ffôn ynghylch rheoli pyllau nofio a phyllau sba, rwyf yn ysgrifennu atoch i roi gwybodaeth bellach i chi am y prosiect ac i gadarnhau'r apwyntiad ar ……

Mae gan gyflogwyr sy'n gweithredu pyllau sba a phyllau nofio ddyletswyddau o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974. Fodd bynnag, yn dilyn ymweliadau a gynhaliwyd yn flaenorol, rydym yn gwybod bod rhai cyflogwyr yn cael anhawster cydymffurfio â rheoliadau ac arweiniad.

Ni chredwn fod y rhan fwyaf o gyflogwyr yn gwneud hyn o fwriad. Mae problemau'n digwydd yn aml gan fod gormod gan reolwyr i'w wneud a'u bod yn gohirio'r tasgau sy'n "llai pwysig" yn eu barn hwy nes bod amser ganddynt i'w gwneud. Fodd bynnag, nid yw rhai rheolwyr byth yn rhoi'r flaenoriaeth gywir i reoli pyllau sba a phyllau nofio yn ddiogel. Gallai hyn ddigwydd gan nad ydynt yn sylweddoli:

- Bod rheoli pyllau sba/pyllau nofio yn wael yn gallu arwain at achosion o glefyd. Mae rhai achosion mewn cysylltiad â phyllau sba yn gallu achosi salwch difrifol neu farwolaeth hyd yn oed (e.e. clefyd y Llengfilwyr).

- Gall achos o glefyd gael effeithiau difrodus ar fusnes sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae'n bosibl y bydd cyhoeddusrwydd a phobl yn sôn am y busnes yn gyrru cwsmeriaid i ffwrdd. Gallai llysoedd osod dirwyon sylweddol. Efallai na fydd llawer o fusnesau bach yn goroesi.

- Os nad yw'r sgiliau angenrheidiol gan y cyflogwr ei hun, mae ganddo ddyletswydd statudol i benodi rhywun cymwys i'w gynghori am reoli'r risgiau sydd ynghlwm wrth byllau sba/pyllau nofio.

Rwyf wedi amgáu ffurflen hunanarchwilio i helpu i atal hyn rhag digwydd i chi. Mae'r ffurflen yn nodi'r rhan fwyaf o'r materion y mae angen i chi fynd i'r afael â hwy i ddarparu safonau rheoli da.

Rwyf wedi amgáu hefyd:

- Rhestr o gyhoeddiadau sy'n rhoi arweiniad am weithredu pyllau sba yn ddiogel

- Taflen arweiniad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch "Angen cymorth gydag iechyd a diogelwch?"

Edrychwch drwy'r ffurflen ac atebwch bob cwestiwn. Os ydych chi'n ansicr ynghylch unrhyw fater technegol, cysylltwch â'r sawl rydych wedi'i benodi i'ch cynghori am yr agweddau iechyd a diogelwch ar weithredu eich pwll sba/pwll nofio. Os nad ydych chi'n deall cwestiwn, dylech gysylltu â mi ar rif ffôn y llinell uniongyrchol neu'r cyfeiriad e-bost ar waelod y llythyr hwn.

Er bydd y rhan fwyaf o fusnesau yn croesawu ein cymorth efallai, rydym yn cydnabod y bydd un neu ddau gyflogwr yn llai dyfal o ran amddiffyn iechyd a diogelwch y rheiny sy'n defnyddio neu'n cynnal pyllau sba. Mae'n ddyletswydd arnom i helpu i amddiffyn cwsmeriaid a staff rhag cyflogwyr felly a byddwn yn gwneud hyn drwy arolygu'r holl byllau nofio a phyllau sba yng Nghaerdydd, rhwng diwedd mis Ionawr a mis Ebrill eleni.

Fel y gwyddoch eisoes, cynhelir yr arolygiad cyn diwedd mis Ebrill 2006. Yn ystod yr arolygiad, bydd angen i mi gyfarfod ag:

- Aelod o'r staff rheoli sy'n deall sut y mae'r pyllau'n cael eu gweithredu a'u rheoli;

- Rhywun sy'n gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd i'r peiriannau (e.e. glanhau'r hidlen drwy redeg adlifoedd drwyddi a sicrhau bod yr offer dogni yn rhyddhau'r swm cywir o gemegau); ac

- Aelod o staff sy'n cynnal profion cemegol rheolaidd.

Cyn yr ymweliad, sicrhewch eich bod wedi ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen amgaeedig. Os ydych wedi cymryd unrhyw gamau cywiro, cofiwch gofnodi hyn. Drwy wneud hyn, arbedir llawer o amser ar ddiwrnod yr arolygiad.

Yn ystod yr ymweliad, gwnaf y canlynol:

(a) Casglu'r ffurflen;
(b) Archwilio'r atebion;
(c) Edrych i weld a ydych chi wedi nodi unrhyw broblemau posibl ac, os ydych wedi gwneud hynny, gweld a ydych wedi cwblhau unrhyw gamau cywiro angenrheidiol cyn yr ymweliad;
(ch) Cynnal ymchwiliadau i wirio rhai o'r atebion a roddwyd gennych ar y ffurflen;
(d) Gofyn i'r rheolwr neu'r aelod o staff sy'n cynnal a chadw'r peiriannau'n rheolaidd i gwblhau holiadur dewis lluosog byr i asesu ei wybodaeth am weithredu pyllau sba yn ddiogel;

(dd) Gofyn i chi am fwy o wybodaeth os wyf yn amau nad ydych yn cydymffurfio â'r gyfraith efallai;
(e) Cymryd rhai samplau dŵr ar gyfer profion a dadansoddiad bacteriolegol;
(f) Archwilio asesiadau risg, cofnodion hyfforddiant a dogfennau gweithdrefnau gweithredu.

Rhowch wybod i mi yn ystod yr arolygiad os credwch eich bod wedi cymryd unrhyw fesurau amgen i gydymffurfio â'r gyfraith, neu os ydych chi wedi dechrau cymryd camau i fynd i'r afael â diffyg.

Os canfyddir unrhyw broblemau, efallai bydd angen cymryd camau gorfodi. Bydd y camau yn gymesur â difrifoldeb y drosedd. Gallai hyn gynnwys unrhyw un, neu'r cyfan o'r canlynol:

- Cyngor/llythyr;
- Rhoi Hysbysiad Gwelliant sy'n mynnu gwaith cywiro;
- Rhoi Hysbysiad Gwahardd sy'n mynnu bod y pwll sba yn cael ei ddiffodd nes bod camau cywiro wedi'u cymryd; neu
- Erlyniad.

Bydd unrhyw gamau cywiro yn unol â'n polisi gorfodi. Ystyrir y cyngor a'r rhybudd yn y llythyr hwn wrth benderfynu pa fath o gamau cywiro a fyddai'n briodol.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os bydd gennych unrhyw ymholiadau am y cynigion hyn, neu os hoffech fersiwn print bras o'r llythyr neu'r ffurflen.

Yr eiddoch yn gywir

Enw
Teitl

Amg. Taflen rhestr cyhoeddiadau

Ffurflen Hunanarchwilio Safle

'Angen cymorth gydag iechyd a diogelwch' yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

'Beth i'w ddisgwyl pan fydd arolygydd iechyd a diogelwch yn galw heibio' HSC

Atodiad 1(b)

Our Ref / Ein Cyf: KD/PP/MT
Your Ref / Eich Cyf:

Date / Dyddiad: X Ionawr 2006

Annwyl Syr/Fadam

Parthed: Gweithredu Pyllau Sba yng Nghaerdydd – Rheoli pyllau sba
Prosiect arolygu a phrofi Ionawr – Ebrill 2006

Yn dilyn ein sgwrs ddiweddar ar y ffôn ynghylch rheoli pyllau nofio a phyllau sba, rwyf yn ysgrifennu atoch i roi gwybodaeth bellach i chi am y prosiect ac i gadarnhau'r apwyntiad ar ……..

Mae gan gyflogwyr sy'n gweithredu pyllau sba a phyllau nofio ddyletswyddau o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974. Fodd bynnag, yn dilyn ymweliadau a gynhaliwyd yn flaenorol, rydym yn gwybod bod rhai cyflogwyr yn cael anhawster cydymffurfio â rheoliadau ac arweiniad.

Ni chredwn fod y rhan fwyaf o gyflogwyr yn gwneud hyn o fwriad. Mae problemau'n digwydd yn aml gan fod gormod gan reolwyr i'w wneud a'u bod yn gohirio'r tasgau sy'n "llai pwysig" yn eu barn hwy nes bod amser ganddynt i'w gwneud. Fodd bynnag, nid yw rhai rheolwyr byth yn rhoi'r flaenoriaeth gywir i reoli pyllau sba a phyllau nofio yn ddiogel. Gallai hyn ddigwydd gan nad ydynt yn sylweddoli:

- Bod rheoli pyllau sba/pyllau nofio yn wael yn gallu arwain at achosion o glefyd. Mae rhai achosion mewn cysylltiad â phyllau sba yn gallu achosi salwch difrifol neu farwolaeth hyd yn oed (e.e. clefyd y Llengfilwyr).

- Gall achos o glefyd gael effeithiau difrodus ar fusnes sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae'n bosibl y bydd cyhoeddusrwydd a phobl yn sôn am y busnes yn gyrru cwsmeriaid i ffwrdd. Gallai llysoedd osod dirwyon sylweddol. Efallai na fydd llawer o fusnesau bach yn goroesi.

- Os nad yw'r sgiliau angenrheidiol gan y cyflogwr ei hun, mae ganddo ddyletswydd statudol i benodi rhywun cymwys i'w gynghori am reoli'r risgiau sydd ynghlwm wrth byllau sba/pyllau nofio.

Rwyf wedi amgáu ffurflen hunanarchwilio i helpu i atal hyn rhag digwydd i chi. Mae'r ffurflen yn nodi'r rhan fwyaf o'r materion y mae angen i chi fynd i'r afael â hwy i ddarparu safonau rheoli da.

Rwyf wedi amgáu hefyd:

- Rhestr o gyhoeddiadau sy'n rhoi arweiniad am weithredu pyllau sba yn ddiogel
- Taflen arweiniad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch "Angen cymorth gydag iechyd a diogelwch?"

Edrychwch drwy'r ffurflen ac atebwch bob cwestiwn. Os ydych chi'n ansicr ynghylch unrhyw fater technegol, cysylltwch â'r sawl rydych wedi'i benodi i'ch cynghori am yr agweddau iechyd a diogelwch ar weithredu eich pwll sba/pwll nofio. Os nad ydych chi'n deall cwestiwn, dylech gysylltu â mi ar rif ffôn y llinell uniongyrchol neu'r cyfeiriad e-bost ar waelod y llythyr hwn.

Er bydd y rhan fwyaf o fusnesau yn croesawu ein cymorth efallai, rydym yn cydnabod y bydd un neu ddau gyflogwr yn llai dyfal o ran amddiffyn iechyd a diogelwch y rheiny sy'n defnyddio neu'n cynnal pyllau sba. Mae'n ddyletswydd arnom i helpu i amddiffyn cwsmeriaid a staff rhag cyflogwyr felly a byddwn yn gwneud hyn drwy arolygu'r holl byllau nofio a phyllau sba yng Nghaerdydd, rhwng diwedd mis Ionawr a mis Ebrill eleni.

Fel y gwyddoch eisoes, cynhelir yr arolygiad cyn diwedd mis Ebrill 2006. Yn ystod yr arolygiad, bydd angen i mi gyfarfod ag:

- Aelod o'r staff rheoli sy'n deall sut y mae'r pyllau'n cael eu gweithredu a'u rheoli;
- Rhywun sy'n gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd i'r peiriannau (e.e. glanhau'r hidlen drwy redeg adlifoedd drwyddi a sicrhau bod yr offer dogni yn rhyddhau'r swm cywir o gemegau); ac
- Aelod o staff sy'n cynnal profion cemegol rheolaidd.

Cyn yr ymweliad, sicrhewch eich bod wedi ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen amgaeedig. Os ydych wedi cymryd unrhyw gamau cywiro, cofiwch gofnodi hyn. Drwy wneud hyn, arbedir llawer o amser ar ddiwrnod yr arolygiad.

Yn ystod yr ymweliad, gwnaf y canlynol:

(a) Casglu'r ffurflen;
(b) Archwilio'r atebion;
(c) Edrych i weld a ydych chi wedi nodi unrhyw broblemau posibl ac, os ydych wedi gwneud hynny, gweld a ydych wedi cwblhau unrhyw gamau cywiro angenrheidiol cyn yr ymweliad;
(ch) Cynnal ymchwiliadau i wirio rhai o'r atebion a roddwyd gennych ar y ffurflen;
(d) Gofyn i'r rheolwr neu aelod o staff sy'n cynnal a chadw'r peiriannau'n rheolaidd i gwblhau holiadur dewis lluosog byr i asesu ei wybodaeth am weithredu pyllau sba yn ddiogel;
(dd) Gofyn i chi am fwy o wybodaeth os wyf yn amau nad ydych yn cydymffurfio â'r gyfraith;
(e) Cymryd rhai samplau dŵr ar gyfer profion a dadansoddiad bacteriolegol;
(f) Archwilio asesiadau risg, cofnodion hyfforddiant a dogfennau gweithdrefnau gweithredu.

<u>Rhowch wybod i mi yn ystod yr arolygiad os credwch eich bod wedi cymryd unrhyw fesurau amgen i gydymffurfio â'r gyfraith, neu os ydych chi wedi dechrau cymryd camau i fynd i'r afael â diffyg.</u>

Os canfyddir unrhyw broblemau efallai bydd angen rhoi gwybod i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch er mwyn iddo gymryd camau gorfodi. Bydd y camau yn gymesur â difrifoldeb y drosedd. Gallai hyn gynnwys unrhyw un, neu'r cyfan o'r canlynol:

- Cyngor/llythyr;
- Rhoi Hysbysiad Gwelliant sy'n mynnu gwaith cywiro;
- Rhoi Hysbysiad Gwahardd sy'n mynnu bod y pwll sba yn cael ei ddiffodd nes bod camau penodol wedi'u cymryd; neu
- Erlyniad.

Ystyrir y cyngor a'r rhybudd yn y llythyr hwn wrth benderfynu pa fath o gamau cywiro a fyddai'n briodol.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os bydd gennych unrhyw ymholiadau am y cynigion hyn, neu os hoffech fersiwn print bras o'r llythyr neu'r ffurflen.

Yr eiddoch yn gywir

Enw
Teitl

Amg. Taflen rhestr cyhoeddiadau

Ffurflen Hunanarchwilio Safle

'Angen cymorth gydag iechyd a diogelwch' yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

'Beth i'w ddisgwyl pan fydd arolygydd iechyd a diogelwch yn galw' HSC

Atodiad 2

FFURFLEN HUNANARCHWILIO SAFLE

Llenwch yr adran ganlynol: _____

Enw a chyfeiriad eich safle: _____

_____

_____

_____

_____

Llenwyd y ffurflen gan: _____

Swydd: _____

Atebwch y cwestiynau drwy dicio'r golofn Ydy/Nac Ydy (✓/x) briodol. Nid oes angen i chi ateb y cwestiynau gyda "*" oni fyddant yn berthnasol i chi.

Os ydych wedi ateb "nac ydy" i unrhyw gwestiwn, nid ydych yn cydymffurfio â'r gyfraith, neu nid ydych yn dilyn arfer gorau ac fe ddylech geisio cyngor proffesiynol cyn gynted â phosibl.

Os ydych yn ateb "nac ydy" i gwestiwn ac yn cwblhau unrhyw gamau cywiro yn ddiweddarach, nodwch y dyddiad y cwblhawyd y gwaith gennych yn y golofn "cwblhawyd". PEIDIWCH â defnyddio'r golofn hon ar gyfer unrhyw beth heblaw cofnodi dyddiad cwblhau'r camau cywiro.

Pan fyddaf yn ymweld â'ch safle, byddaf yn casglu ac yn archwilio'r ffurflen. Os bydd unrhyw un o'ch atebion yn nodi nad ydych efallai'n cydymffurfio â'r gyfraith, byddaf yn gofyn ichi am fanylion unrhyw fesurau amgen rydych wedi'u cymryd efallai i gydymffurfio â'r gyfraith. Byddaf hefyd yn cynnal ymchwiliadau i wirio peth o'r wybodaeth a roesoch ar y ffurflen.

Er bod y ffurflen hon yn ymdrin â'r rhan fwyaf o'ch dyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â gweithredu pyllau sba/pyllau nofio, nid yw'n ymdrin â phob dyletswydd/sefyllfa ac nid yw'n addas ar gyfer asesiad risg trwyadl a systematig.

Cysylltwch â mi os nad ydych chi'n deall cwestiwn, neu os cewch anhawster yn ei ateb.

Diolch am eich cydweithrediad.

Asesiad Risg 1 – *A gynhaliwyd asesiadau risg ac a ydynt wedi'u diweddaru*	✓	x	**Cwblhawyd**
A gynhaliwyd asesiadau risg ynghylch y risgiau canlynol? Os felly, nodwch ddyddiad yr asesiad diweddaraf islaw pob pwynt bwled. • Risgiau i iechyd pobl sy'n defnyddio'r pwll sba/pwll nofio (e.e. o ficrobau fel Clefyd y Llengfilwyr a Pseudomonas. *Dyddiad yr asesiad* _____ • Risgiau i ddiogelwch pobl sy'n defnyddio'r pwll sba/pwll nofio (e.e. llithro a baglu, boddi). *Dyddiad yr asesiad* _____ • Risg o ddefnyddio cemegau trin dŵr (asesiad COSHH). *Dyddiad yr asesiad* _____ • Risg i staff sy'n trafod cemegau trin dŵr â llaw (asesiad risg codi a chario). *Dyddiad yr asesiad* _____ • Risg i bobl sy'n mynd i mewn i'r ystafell beiriannau, yn ei gadael ac yn gweithio ynddi (e.e. mynedfa ac allanfa ddiogel, diogelwch trydanol, peryglon baglu). *Dyddiad yr asesiad* _____ ***Sylwch**: Dylid adolygu asesiadau risg yn rheolaidd. Dylid adolygu'r asesiad o leiaf bob pythefnos mewn perthynas â salwch i bobl sy'n defnyddio'r pwll.* Ydy'r asesiadau'n cael eu cadw ar y safle ac ydy cyflogeion y gallai'r risgiau effeithio arnynt wedi cael gwybod am ganfyddiadau arwyddocaol yr asesiadau? A fu unrhyw newidiadau mawr i gynllun neu adeiladwaith y peiriannau, y system trin dŵr neu'r systemau gwaith ers cynnal neu adolygu'r asesiad(au) risg? ***Sylwch**: Dylid adolygu asesiadau risg pan fo newidiadau sylweddol i'r gwaith neu gynllun y peiriannau.* Ers cynnal neu adolygu'r asesiad risg, a fu unrhyw ddamweiniau neu anhwylderau mewn cysylltiad â'r sba, neu a fu canlyniadau'r monitro bacteriolegol yn wael? ***Sylwch**: Dylid adolygu asesiadau risg pryd bynnag y mae rheswm dros gredu nad yw'r asesiad presennol yn ddilys rhagor (e.e. mae'r mesurau rheoli wedi methu amddiffyn iechyd pobl, neu mae damwain wedi digwydd).*			

Asesiad Risg 2	✓	x	**Cwblhawyd**
A gynhaliwyd yr asesiad(au) gan rywun neu rywrai â digon o sgiliau i'w galluogi i nodi'r holl fesurau y mae angen i chi eu cymryd i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch yn y gwaith? ***Sylwch**: Dylai'r aseswr ddeall a bod yn ymwybodol o'r materion canlynol mewn perthynas â'r risg y mae'n ei asesu:* • *Y gofynion cyfreithiol,* • *Yr arweiniad perthnasol a'r Codau Ymarfer Cymeradwy* *Yn ogystal:* • *Dylai'r rhai sy'n asesu'r risgiau iechyd i'r rheiny sy'n defnyddio'r pwll sba/pwll nofio ddeall cynllun a gweithrediad y pyllau sba/pyllau nofio, a*			

• *Dylai'r rhai sy'n asesu diogelwch trydanol wybod beth yw arwyddocâd yr arolygiad trydanol a'r adroddiad prawf diwethaf, a'u deall.*			
A gofnodwyd enw'r sawl a gynhaliodd yr asesiad?			
A gofnodwyd dyddiad yr asesiad?			
A osodwyd terfyn amser mwyaf ar gyfer adolygu'r asesiad?			
A yw'r sawl â'r cyfrifoldeb rheoli a sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu hadolygu yn gwybod ym mha amgylchiadau y dylid adolygu'r asesiad ar unwaith?			
Os yw'r aseswr(wyr) wedi gwneud argymhellion, a aethpwyd i'r afael â'r rhain yn briodol?			

Asesiad Risg 3 – *Yr asesiad am <u>salwch</u> sy'n codi o weithredu'r pwll.*			
A wnaeth yr aseswr(wyr) adolygu a yw'r materion canlynol yn addas/digonol/digon da:	✓	**x**	**Cwblhawyd**
Cynllun ac ansawdd y cyflenwad dŵr llenwi?			
Cynllun ac adeiladwaith y pwll a ffitiadau cysylltiedig?			
Maint a chynllun y peiriant hidlo, cyfradd newid dŵr y pwll a'r llwyth nofio mwyaf?			
Y system reoli a ddefnyddir i weithredu'r wyntyll chwythu aer? ***Sylwch**: Dylai'r system reoli atal cwsmeriaid rhag gweithredu'r wyntyll oni fu cyfnod gorffwys digonol i'r system trin dŵr adfer rhwng pobl yn defnyddio'r wyntyll.*			
Y system trin dŵr a ddefnyddir i reoli twf microbau?			
Amlder a graddau gwaith cynnal a chadw, gwirio a phrofi rheolaidd, gan gynnwys: • Monitro biolegol? _____ • Monitro cemegol? _____ • Glanhau'r hidlen drwy redeg adlifoedd drwyddi? _____ • Glanhau'r sba a'r tanc cydbwyso yn rheolaidd? _____ • Glanhau a diheintio'r system yn rheolaidd? _____ • Glanhau a diheintio'r system ar frys? _____			
Y terfynau rheoli microbiolegol?			
Y terfynau rheoli trin dŵr?			
Y disgrifiad ysgrifenedig o'r camau i'w cymryd os bydd amgylchiadau rhagweladwy yn cynyddu risg salwch (e.e. os yw archwiliad neu brofion yn datgelu bod y peiriant yn gweithredu y tu hwnt i'r terfynau rheoli neu os oes arwyddion bod y peiriant wedi rhoi haint i ddefnyddwyr?			
Gwybodaeth a galluoedd pawb sy'n gyfrifol am weithredu'r peiriant yn ddiogel (h.y. a ydynt yn gwybod digon i gyflawni eu cyfrifoldebau penodol ac a ydynt yn gallu eu gwneud)?			
Y cyfarwyddiadau gweithredu a chynnal a chadw na grybwyllwyd uchod?			
Cynllunio a chwblhau llyfr log y peiriannau?			
Y trefniadau adrodd i reolwyr?			
Unioni diffygion yn amserol a nodwyd gan waith cynnal a chadw a monitro rheolaidd?			

Cyfrifoldebau a Threfniadau Adrodd	✓	x	Cwblhawyd
A oes dogfen wedi'i ddiweddaru ar gael sy'n dangos y llinellau cyfathrebu rhwng y bobl a'r cwmnïau amrywiol sy'n gyfrifol am weithredu'r pwll sba/pwll nofio yn ddiogel? A ddarperir rhifau ffôn i'w defnyddio mewn argyfwng?			
Ydy'r ddogfen yn nodi graddau cyfrifoldebau pobl?			
A adroddir am ddiffygion sylweddol i'r sawl sy'n gyfrifol ar y cyfle cyntaf?			
A oes dirprwy i lenwi swydd y sawl sy'n gyfrifol pan fydd yn absennol?			
Oes trefniadau digonol i lenwi swydd y personél sy'n gwneud profion a gwaith cynnal a chadw rheolaidd os bydd yn absennol?			

Cymhwysedd Hyfforddiant	✓	x	Cwblhawyd
Ydy'r sawl sy'n gyfrifol a'i ddirprwy wedi cael hyfforddiant digonol ac yn deall eu cyfrifoldebau?			
Ydy'r bobl sy'n gwneud archwiliadau, profion a gwaith cynnal a chadw rheolaidd A'R rheiny sy'n llenwi eu swydd pan fyddant yn absennol wedi:			
• Cael hyfforddiant a chyfarwyddiadau digonol, ac • yn deall eu cyfrifoldebau?			
Ydy'r staff wedi cael cyfarwyddiadau a hyfforddiant addas ac a ydy'r rhain yn cael eu diweddaru? ***Sylwch:*** *Mae'n anarferol i bobl gofio popeth a ddywedwyd wrthynt – efallai bydd angen hyfforddiant gloywi.*			
A gedwir cofnodion hyfforddiant ar y safle?			

Gweithdrefnau Gweithredu Rheolaidd	✓	x	Cwblhawyd
A oes gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer gweithredu'r pwll sba/pwll nofio yn rheolaidd			
Ydy'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys: Yr amlder A'R gweithdrefnau i'w defnyddio ar gyfer:			
Profi'r pH? ..... Profi'r lefelau clorin rhydd a chlorin cyfunol? ..... Profi cyfanswm y solidau toddedig (TDS)? ..... Profion microbiolegol? ..... Glanhau'r hidlen drwy redeg adlifoedd drwyddi? ..... Glanhau'r tanc cydbwyso? ..... Gollwng yr holl ddŵr yn system y pwll sba? ..... Glanhau a diheintio'r pwll sba/pwll nofio? ..... Glanhau a graddnodi unrhyw mewnchwilyddion prawf a osodwyd yn y system (e.e. mewnchwilyddion REDOX a pH) a mesuryddion llaw? ..... Disodli'r cyfrwng hidlo?			

Gweithdrefnau Cychwyn	✓	x	Cwblhawyd
A oes gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer cychwyn y peiriannau os cawsant eu gwagio neu os na fuont yn gweithredu ers pedair wythnos neu fwy?			
Ydy'r weithdrefn yn galw am ddiheintio'r peiriant cyfan cyn ei ddefnyddio?			

Gweithdrefnau "y Tu Hwnt i Reolaeth"	✓	x	Cwblhawyd

Oes gweithdrefnau ysgrifenedig digonol i ymdrin â cholli rheolaeth sylweddol a halogi difrifol?			
Ydy'r gweithdrefnau hynny'n nodi'n glir ym mha amgylchiadau y dylid cau'r pwll?			
Ydy'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys darganfod Pseudomonas, bacteria clefyd y llengfilwyr neu achos o Glefyd y Llengfilwyr?			
A oes datganiadau dull ysgrifenedig manwl ar gyfer glanhau a diheintio'r pwll sba/pwll nofio os bydd achos o glefyd neu os darganfyddir niferoedd uchel o facteria Clefyd y Llengfilwyr/ Pseudomonas aeruginosa?			

Gweithredu a Chynnal a Chadw Rheolaidd – Canllawiau a Logiau	✓	x	**Cwblhawyd**
A gedwir canllaw gweithredu/cynnal a chadw addas ar y safle?			
A oes lluniad cynllunio diweddar o: • System y pwll sba/pwll nofio ..... • Y system dŵr llenwi			
Ydy'r cynllun yn dangos ble mae pob falf?			
A gedwir y gweithdrefnau gweithredu a chynnal a chadw ysgrifenedig wrth law i'r rheiny y mae angen iddynt eu defnyddio?			
A gedwir y gweithdrefnau gweithredu a chynnal a chadw ysgrifenedig yn gyfredol, ac ydynt mewn ffurf sy'n hwyluso adfer gwybodaeth (e.e. mewn trefn resymegol mewn ffolder ag adran gynnwys)?			
A gwblheir y llyfr log yn foddhaol?			

Pwll Sba/Pwll Nofio – Cynllun, Cyflwr Ffisegol, Cyfleusterau a Hysbysiadau	✓	x	**Cwblhawyd**
Ydy'r pwll sba/pwll nofio yn cael ei gadw'n lân ac mewn cyflwr da?			
Ydy'r amgylchynau, y gorlif a'r gratinau i'r pwll yn cael eu cadw'n lân ac mewn cyflwr da heb unrhyw dystiolaeth o lysnafeddau?			
A oes cawod gerllaw?			
A oes hysbysiadau amlwg sy'n gofyn i ddefnyddwyr gael cawod cyn defnyddio'r pwll sba/pwll nofio?			
Os yw plant yn cael defnyddio'r pwll ac os yw'r pwll sba neu'r pwll nofio dros 1.2 metr o ddyfnder, a oes rhybudd yn dweud bod rhaid goruchwylio plant?			
A gynlluniwyd mewnfeydd dŵr/llif aer ac allfeydd sugnedd i leihau risg dal bysedd/bysedd traed/gwallt cwsmeriaid ac ydynt yn cael eu cadw yn y cyflwr hwnnw?			
Oes angen gwneud rhywbeth mwy i sicrhau, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, y gall pobl fynd i mewn i'r pwll ac allan o'r pwll yn ddiogel?			
***Sylwch**: Cofiwch y gallai swigod aer a chwistrellir i mewn i'r pwll gymylu'r grisiau a gwaelod y pwll. Ystyriwch a oes angen y canlynol:* • Canllawiau • Teils o liwiau cyferbyniol/goleuadau tanddwr • Arwynebau â mwy o afael na'r rhai presennol.			

Lle bo angen, a gedwir golwg digonol ar y pwll sba/pwll nofio?			
***Sylwch**: Ni fydd angen cadw golwg ar bob pwll. Dylid barnu a oes angen cadw golwg yn seiliedig ar debygolrwydd damwain yn digwydd a difrifoldeb posibl y ddamwain honno. Dylid cydbwyso'r rhain yn erbyn costau darparu gwyliadwraeth ddigonol. Dylech ystyried y cynllun, lleoliad, nifer y bobl sy'n defnyddio'r pwll a'r mathau o bobl sy'n defnyddio'r pwll (e.e. plant neu'r methedig).*			
Ydy'r system reoli ar gyfer y wyntyll chwythu aer i'r sba yn sicrhau na all cwsmeriaid roi'r chwythwr aer ymlaen eto oni fu cyfnod gorffwys digonol a amserwyd ymlaen llaw er mwyn i'r system trin dŵr adfer?			

Yr Ystafell Beiriannau – Cynllun, Cyflwr Ffisegol, Diogelwch Trydanol	✓	x	**Cwblhawyd**
A oes mynedfa ddiogel i'r ystafell beiriannau?			
Ydy maint a chynllun yr ystafell beiriannau a'r goleuo yn galluogi pobl i wneud eu tasgau'n ddiogel?			
A gedwir y tanc cydbwyso yn lân ac mewn cyflwr da (heb unrhyw dystiolaeth o lysnafeddau)?			
Ydy'r pibelli dŵr llenwi wedi'u hinsiwleiddio?			
Ydy dŵr poeth a dŵr oer yn cael eu cymysgu cyn mynd i mewn i'r tanc cydbwyso ac, os felly, ydy'r pibwaith dŵr cymysg yr hyd lleiaf posibl y gall fod yn rhesymol?			
Ydy system dosbarthu dŵr y pwll sba/pwll nofio yn rhydd o bibelli osgoi o amgylch elfennau'r gwresogydd?			
Oes gan y cyflenwad dŵr llenwi unrhyw ddiweddion tywyll lle mae dŵr yn cronni?			
A gymerir rhagofalon digonol i reoli risgiau diogelwch trydanol? (e.e. bondio unbotensial/bondio daear, archwilio offer trydanol)?			
A yw cylchedau trydanol wedi'u hamddiffyn gan RCCD? A weithredir botymau prawf RCCD o leiaf unwaith y mis ac a gedwir taflen log o'r holl brofion hyn?			

Trafod Cemegau	✓	x	**Cwblhawyd**
Ydy lleoliad y storfa cemegau trin dŵr a'r offer dogni trin dŵr yn galluogi codi a chario a defnyddio'r cemegau trin dŵr hynny yn ddiogel?			
Oes labeli amlwg ar bobl cynhwysydd cemegau?			
Ydy pob tiwb ar gyfer dogni cemegau i mewn i'r pwll mewn safle a/neu wedi'u gosod mewn ffordd a fydd yn atal rhoi straen ar y cysylltiadau a allai arwain at ollwng cemegau?			
A gedwir yr offer amddiffynnol personol sydd ei angen i drafod y cemegau trin dŵr (e.e. gogls, menig, ffedogau) wrth law ac mewn cyflwr da?			
Ydy'r holl staff sy'n trafod cemegau wedi cael eu hyfforddi i'w defnyddio'n ddiogel?			
Oes gweithdrefnau digonol i ddelio â gollyngiadau cemegau?			
Os defnyddir cyfansoddion Clorin neu Fromin, a oes gweithdrefnau brys digonol i ymdopi os rhyddheir nwy Clorin/Bromin drwy gymysgu cyfansoddion asid â'r bywleiddiad yn ddamweiniol?			
Ydy staff yn hollol ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn?			

Logiau Gwaith Monitro a Chynnal a Chadw Rheolaidd	✓	x	**Cwblhawyd**

Ydy'r logiau yn dangos y cymerwyd camau cywiro priodol i ddelio â diffygion (e.e. cau pwll sba/pwll nofio)?			
Ydy'r logiau yn dangos bod y profion, yr arolygiadau a'r gwaith cynnal a chadw canlynol yn cael eu gwneud pan ddylent gael eu gwneud?			
Gwirio pH a bywleiddiad			
Glanhau'r hidlen drwy redeg adlifoedd drwyddi			
Draenio ac ail-lenwi			
Diheintio			
TVCC (cyfrif cytrefi labordy)			
Sleidiau trochi			
TDS/Dargludedd			
Bacteria Clefyd y Llengfilwyr			
Graddnodi pob synhwyrydd (e.e. synhwyrydd pH) – sef synwyryddion mewn-llinell a synwyryddion llaw			
Disodli'r cyfrwng hidlo			

Samplau Bacteriolegol	✓	**x**	**Cwblhawyd**
A anfonir samplau bacteriolegol at labordy ag achrediad UKAS ar gyfer y profion a wnaiff ichi?			

Atodiad 3

Rhestr Cyhoeddiadau

Dŵr Pyllau Nofio:-	Safonau Trin ac Ansawdd 1999 Grŵp cynghori ar drin dŵr pyllau ISBN 07176 17726
Rheoli Iechyd a Diogelwch mewn Pyllau Nofio 2003 HSG179	Llyfrau HSE ISBN 07176 26865
Rheoli pyllau sba Rheoli risg heintiau	HSE/yr Asiantaeth Diogelu Iechyd Ar gael gan yr Asiantaeth Diogelu Iechyd £10.00. ISBN 0 90114480 0
Clefyd y Llengfilwyr	Rheoli bacteria clefyd y llengfilwyr mewn systemau dŵr, ACOP ac arweiniad L8 (2^{il} Argraffiad) 2000 Llyfrau HSE ISBN 0717617726
Clefyd y Llengfilwyr:	Rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio pyllau sba. Taflen wybodaeth HSE www.hse.gov.uk

Atodiad 4

HOLIADUR GWEITHREDWYR PYLLAU SBA

Enw .....

Safle .....

Disgrifiad Swydd .....

1. Rhaid gweithredu pyllau sba yn ofalus i'w gwneud yn llai tebygol bod pobl yn dioddef o: (ticiwch unrhyw un sy'n berthnasol)

   a) Clefyd y Llengfilwyr ☐

   b) Heintiau'r glust, y llygaid a'r croen ☐

   c) Dermatitis ☐

2. Y prif reswm dros ddefnyddio clorin neu fromin mewn pyllau sba yw:

   a) Addasu'r pH ☐

   b) Gwaredu'r baw ☐

   c) Rheoli twf micro-organebau ☐

   d) Rhoi arogl dymunol i'r dŵr ☐

3. Pan ddefnyddir clorin, dylai dŵr y sba fel arfer gynnwys clorin ar grynodiad o:

   a) 0.2-0.6 rhan y filiwn ☐

   b) 0.6-3.0 rhan y filiwn ☐

   c) 3.0-5.0 rhan y filiwn ☐

   d) 4.0-9.0 rhan y filiwn ☐

4. Pa un o'r rhain yw un o'r prif resymau dros fesur y pH. (ticiwch yr un ateb sy'n fwyaf priodol)

   a) Gan ei fod yn nodi os oes dŵr yn cael ei wastraffu ☐

   b) I atal cemegau rhag cael eu gwastraffu ☐

   c) Sicrhau y gall y clorin a'r bromin weithio'n iawn ☐

5. Y pH a argymhellir am pwll sba yw rhwng:

   a) 7.6 ac 8.4 ☐

   b) 7.2 a 7.8 ☐

   c) 7.8 ac 8.6 ☐

d) 8.2 ac 8.8 ☐

6. Y peth cyntaf y dylech ei wneud os nad oes unrhyw glorin na bromin yn y sba yn ystod oriau agor yw: (ticiwch un ateb)

a) Cau'r pwll sba ☐

b) Gadael y pwll ar agor, ond rhoi mwy o glorin neu fromin i mewn i'r system â llaw ☐

c) Gadael y pwll ar agor, ond newid neu drefnu addasiadau i'r offer dogni awtomatig ☐

7. Pa mor aml y dylid glanhau'r hidlen drwy redeg adlifoedd drwyddi? (ticiwch un ateb)

a) Pedair gwaith y dydd ☐

b) Bob dydd ☐

c) Bob wythnos ☐

d) Bob mis ☐

e) Unwaith bob tri mis ☐

8. Glanheir yr hidlen drwy redeg adlifoedd drwyddi er mwyn: (ticiwch yr ateb mwyaf priodol)

a) Cynyddu'r pH ☐

b) Gwaredu tywod dros ben yn yr hidlen ☐

c) Cadw'r draeniau'n lân ☐

d) Glanhau baw sydd wedi'i ddal yn yr hidlen ☐

9. Beth a allai ddigwydd os yw'r cemegyn a ddefnyddir i addasu'r pH yn cael ei gymysgu â'r diheintydd clorin neu fromin? (ticiwch un ateb)

a) Nid oes unrhyw berygl enbyd, ond gallai'r cemegau adweithio a chanslo effaith ei gilydd ☐

b) Nid oes unrhyw berygl a bydd y cemegau yr un mor effeithiol ☐

c) Daw'r cemegau yn grynswth solid sy'n cloi'r offer dogni ☐

d) Mae nwy gwenwynig yn cael ei ryddhau ☐

10. Os defnyddir y sba yn aml, dylid mesur lefel y clorin neu'r bromin: (ticiwch un ateb)

a) Pedair gwaith y dydd ☐

b) Pan fydd y pwll yn agor ac yn cau ☐

c) Unwaith y dydd ☐

11. Dylid gwagio'r dŵr allan o'r pwll sba a diheintio'r pwll sba tua: (ticiwch un ateb)

a) Bob dydd ☐

b) Bob wythnos ☐

c) Bob mis ☐

d) Bob tri mis ☐

e) Bob chwe mis ☐

12. Wrth ddefnyddio clorin yn rhan o'r system trin dŵr arferol mewn sba, ni ddylai swm y clorin cyfunol fod yn fwy na: (ticiwch un ateb)

a) 10 rhan y filiwn ☐

b) 0.5 rhan y filiwn ☐

c) 1 rhan y filiwn ☐

d) 3 rhan y filiwn ☐

e) 5 rhan y filiwn ☐

13. Y prif reswm y dylid cadw pob rhan o'r system sba, gan gynnwys y pwll ei hun, yn lân yw: (ticiwch yr un ateb mwyaf perthnasol)

a) Atal y sba rhag cael ei ddifrodi ☐

b) Atal y pH rhag cynyddu ☐

c) Sicrhau nad yw pobl yn teimlo'n frwnt pan fyddant yn gadael y sba ☐

d) Rheoli'r siawns o wneud pobl yn sâl ☐

Atodiad 5

FFURFLEN AROLYGU SWYDDOG

Enw(au)'r Swyddog Arolygu			
Enw'r Safle			
Enw'r Busnes			
Cyfeiriad Llawn y Safle		Cyfeiriad y Brif Swyddfa (Enw'r Swyddog Iechyd a Diogelwch os yw'n berthnasol)	
		Cyfeiriad y Swyddfa Gofrestredig	
Dyddiad yr Arolygiad		Dyddiad blaenorol arolygu'r pwll sba/pwll nofio	
Nifer y Pyllau Sba/Pyllau Nofio ac enwau/lleoliadau os oes mwy nag un pwll			
Gweithredu adeg yr arolygiad		Os NA – dyddiad diwethaf y gweithredodd	

Pobl y cyfarfuwyd â nhw yn ystod yr adolygiad o'r Pwll Sba/ Pwll Nofio (gan gynnwys enwau a swyddi)	
Rheolwyr/Goruchwylwyr	
Pobl sy'n cynnal profion dyddiol	
Eraill	

Contractwr Cynnal a Chadw a Pheirianneg	
Enw'r Cwmni	
Cyfeiriad y Brif Swyddfa	

Rhif Ffôn y Brif Swyddfa	
Prif Gyswllt a Swydd yn y Sefydliad	
Cysylltiad(au) yn y Safle (os yw'n wahanol i'r uchod)	

Contractwr Trin Dŵr (enw cyfan pob achos – blychau eraill os oes angen)	
Enw'r Cwmni	
Cyfeiriad y Brif Swyddfa	
Prif Gyswllt a Rhif Ffôn	

Asesiadau Risg	
Ydy'r asesiad o risgiau biolegol yn gyfredol?	
Ydy'r asesiad o godi a chario yn gyfredol?	
Ydy'r asesiad COSHH ar gyfer cemegau trin dŵr yn gyfredol?	
Os yw'r aseswr(wyr) wedi gwneud argymhellion, a aethpwyd i'r afael â'r rhain yn briodol?	

Rheolaeth a Hyfforddiant	
Oes dogfen gyfredol yn dangos y llinellau cyfathrebu rhwng y bobl a'r cwmnïau amrywiol sy'n gyfrifol am weithredu'r pwll sba/pwll nofio yn ddiogel?	
A yw'n ymddangos bod y bobl sy'n gwneud archwiliadau, profion a gwaith cynnal a chadw rheolaidd wedi cael hyfforddiant a chyfarwyddiadau digonol, ac a ydynt yn deall eu cyfrifoldebau? (defnyddiwch y set o gwestiynau a baratowyd ymlaen llaw ar un person o leiaf – atodwch y set cwestiynau i'r ffurflen hon) (prawf gweithredwr sba)	

Llyfr Log	
Ers cynnal neu adolygu'r asesiad risg, a fu canlyniadau monitro	

bacteriolegol yn wael? (archwiliwch y canlyniadau bacteriolegol dros y flwyddyn ddiwethaf) Os yw'r canlyniadau'n wael, a gymerwyd camau priodol ar y pryd?	